TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Canllaw ar gyfer ein fflyd o drenau

## Manylebau Hygyrchedd y Fflyd

Cyhoeddwyd Hydref 2023
ACC0001_A4W/L_V5_1023

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 2 |
| Class 150 | 5 |
| Class 153 | 9 |
| Class 158 | 13 |
| Class 170 | 17 |
| Cerbyd Mark 4 | 21 |
| Class 230 | 25 |
| Class 197 | 29 |
| Class 231 | 35 |
| Class 756 Flirt | 39 |
| Class 398 Citylink | 44 |
| Crynodeb | 48 |


# 1. Croeso

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r fflyd bresennol a'r fflyd arfaethedig o drenau Trafnidiaeth Cymru, ac yn rhoi manylion y cyfleusterau sydd ar gael ar y trenau ar gyfer pobl ag anawsterau symud.

Bydd fflyd newydd o drenau'n cael ei chyflwyno'n raddol rhwng nawr a 2024. Bydd y manylion yn cael eu cynnwys yn y ddogfen hon pan fydd pob math o drên yn cael ei adnewyddu neu ei dynnu'n ôl a'i newid.

## Tîm Cymorth wrth Deithio

Gall ein Tîm Cymorth wrth Deithio roi cyngor, archebu cymorth a threfnu tocynnau ar gyfer eich taith, dim ots pwy yw'r cwmni trên.

I archebu, neu i gael rhagor o wybodaeth am Gymorth i Deithwyr ffoniwch ein tîm Cymorth wrth Deithio, **033 300 50 501** RelayUK, **18001 033 300 50 501** neu ewch i **trc.cymru/teithio-hygyrch**. Gallwch hefyd "gyrraedd a mynd" heb archebu cymorth arbennig ymlaen llaw. Byddwn yn eich helpu i gyrraedd lle'r ydych chi eisiau mynd.

## Cymorth yn ystod eich taith

Os bydd angen cymorth arnoch chi wrth fynd ar y trên ac oddi arno, byddwch chi'n cael help gan y goruchwyliwr ar y trên neu gan staff yr orsaf os bydd staff yn bresennol. Mae ein llyfryn 'Gwasanaethau Rheilffyrdd Hygyrch – helpu teithwyr hŷn ac anabl' yn cynnwys manylion ynghylch pa orsafoedd sydd â staff ac ar ba amseroedd maen nhw ar gael i helpu.

## Cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd modur ar drenau

Mae gennym le ar gyfer cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd modur sy'n mesur hyd at 700mm x 1200mm (yn cynnwys y silff traed), sydd â radiws troi o 900mm, ac uchafswm pwysau o 300kg (sy'n cynnwys pwysau'r gadair olwyn a'r teithiwr gyda'i gilydd). Gwiriwch ddimensiynau eich cadair olwyn a'ch sgwter symudedd modur cyn teithio, osgoi cael eich siomi os nad oes modd eu cludo ar y trên.

## Toiledau cyffredinol ar y trên

Mae toiledau hygyrch a chyfleusterau newid i fabanod ar gael ar ein fflyd gyfan o gerbydau. Holwch staff y rheilffordd neu edrychwch ar yr arwyddion ar y drysau i wneud yn siŵr eich bod yn defnyddio'r rhan iawn o'r trên.

## Dimensiynau toiledau cyffredinol ar y trên

Mae gan unedau sydd â thoiled cyffredinol ar y trên ar gyfer teithwyr ag anawsterau symud led drws o 800mm, oni nodir yn wahanol. Ewch i'r dosbarth penodol o drên yn y ddogfen hon i gael rhagor o fanylion.

Sylwch y gall y dimensiynau hyn amrywio o fflyd i fflyd. Nid oes cymaint o le i symud cadair olwyn yn nhoiled cyffredinol hygyrch y Class 158. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen y Class 158 yn y ddogfen hon. Os hoffech chi gael rhagor o gymorth i weld pa wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y trenau hyn, cysylltwch â'r tîm Cymorth wrth Deithio. Gallan nhw helpu i gynllunio'ch taith ac awgrymu gwasanaethau eraill i chi.

## Gwybodaeth weledol a chlywedol ar fwrdd y trên

Mae gwybodaeth weledol a chlywedol ar gael ar y rhan fwyaf o drenau ein fflyd. Gwiriwch cyn teithio.

## Fformatau Eraill

Mae ein holl ddogfennau'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg / Deddf yr Iaith Gymraeg, ac maen nhw ar gael yn ddwyieithog.

Mae ein holl ddogfennau ar gael mewn fformatau eraill, yn rhad ac am ddim, gan y tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid. Gall y tîm ddarparu fformatau eraill, fel print bras, Braille, neu fersiwn sain.

Byddwn yn darparu'r ddogfen mewn print bras cyn pen saith diwrnod ar ôl cael eich cais, ac unrhyw fformatau eraill cyn gynted â phosib.

Os hoffech chi gael copïau o'r canllawiau hyn neu unrhyw gyhoeddiadau eraill gan TrC mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ffoniwch y Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid ar 0333 3211 202. Mae'r llinellau ar agor rhwng 08:00 a 20:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a rhwng 11:00 ac 20:00 ar ddydd Sul.

Cysylltwch â ni ar-lein drwy lenwi ffurflen adborth ar www.trc.cymru/cysylltu-ni

Cysylltiadau Cwsmeriaid,
Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf,
3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Cyfryngau cymdeithasol TrC, dilynwch:

- Twitter @TfWrail
- Instagram @TfWrail
- Facebook @TfWrail

I gael gwybodaeth am Gymorth i Deithwyr, ewch i www.trc.cymru/gwybodaeth/teithwyr/teithio-hygyrch/cymorth-i-archebu

I gael iawndal am oedi, ewch i www.trc.cymru/cymorth-a-chysylltu/rheilffordd/ad-daliad-am-oedi

Mae rhagor o fanylion cyswllt ar gael ar www.trc.cymru/cysylltu-ni

Class
# 150



## Fflyd bresennol

Trenau disel dau gerbyd yw'r Class 150

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 1987 |
| Nifer yn y fflyd | 36 |

Yn ddiweddar, gosodwyd system Cyfrif Teithwyr Awtomatig (APC) ar 9 o'r fflyd Class 150, sy'n monitro busnes pob gwasanaeth


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 825 |

# Llwybrau

- Llinell Calon Cymru
- Gorllewin Cymru - Abertawe - Caerdydd
- Llandudno - Cyffordd Llandudno
- Cyffordd Llandudno - Blaenau Ffestiniog
- Wrecsam - Bidston
- Holl lwybrau'r Cymoedd a Llinell y Ddinas
- Maesteg - Glynebwy a Cheltenham.
- Crewe - Caer
- De Cymru - Manceinion Piccadilly

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.




# Beth sydd y tu mewn

| | |
|---|---|
| Lle i feiciau | 4 |
| Socedi gwefru 3-phin ac USB | Oes |
| Annerch y Cyhoedd | Oes |
| Seddi | 108 |
| Seddi - seddi codi ychwanegol | 6 |
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Wi-Fi | Oes |





# Cynllun y cerbyd



# Class
# 153




## Fflyd bresennol

Trenau disel un cerbyd yw'r Class 153

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 1987 - 1988 |
| Nifer yn y fflyd | 26 |

Mae 2 fath o uned mewn gwasanaeth ar hyn o bryd.
- UAT (gyda thoiled hygyrch)
- Heb UAT (heb unrhyw doiled).

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn cyfuno uned UAT gydag uned Heb UAT.

## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn (heb UAT) | 1 |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn (UAT) | 2 |
| Toiled hygyrch | |
| (heb ei adnewyddu a PRM Lite) | 0 |
| (wedi'i adfer) | 1 |
| Lled y drws (mm) | 820 |

# Llwybrau

- Llinell Calon Cymru
- Gorllewin Cymru - Abertawe - Caerdydd - Amwythig - Crewe
- Gwennoliaid Bae Caerdydd
- Caer - Lerpwl Lime Street
- Crewe - Caer
- Llinell y Ddinas
- Rhymni - Caerdydd
- De Cymru - Manceinion Piccadilly

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.



# Beth sydd y tu mewn


| | |
|---|---|
| Lle i feiciau | 2 |
| Annerch y cyhoedd | Oes |
| Seddi | 56 |
| Seddi - seddi codi ychwanegol | 3 |
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| Toiled hygyrch | |
| • (heb UAT) | 0 |
| • (UAT) | 1 |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | |
| • (heb UAT) | 0 |
| • (UAT) | 2 |




Toiled hygyrch

# Cynllun y cerbyd

UAT



Heb UAT



# Class
# 158




## Fflyd bresennol

Trenau disel dau gerbyd yw'r Class 158

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 1989 - 1992 |
| Nifer yn y fflyd | 24 |

Sylwch, mae llai o le i symud cadair olwyn yn nhoiled cyffredinol y Class 158.


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 780 |

# Llwybrau

- Gorllewin Cymru - Manceinion
- Gorllewin Cymru - Caergybi
- Amwythig - Wolverhampton a Birmingham
- Amwythig - Rheilffordd Arfordir y Cambrian (dyma'r unig drenau a ddefnyddir ar Reilffordd Arfordir y Cambrian)
- Linell Arfordir Gogledd Cymru

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.





# Beth sydd y tu mewn

| | |
|---|---|
| Lle i feiciau | 2 |
| Arlwyo - wrth y sedd (gwasanaethau dethol yn unig) | Oes |
| Socedi gwefru 3-phin ac USB | Oes |
| Annerch y Cyhoedd | Oes |
| Seddi | 134 |
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Toiled – ddim yn addas i gadeiriau olwyn | 1 |
| Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Wi-Fi | Oes |










Toiled cyffredinol

# Cynllun y cerbyd



Class
# 170



## Fflyd bresennol

Trenau disel tri gerbyd yw'r Class 170

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 1998 - 2005 |
| Nifer yn y fflyd | 8 |


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 970 |

# Llwybrau

- Maesteg - Glynebwy a Cheltenham.

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.




# Beth sydd y tu mewn

| | |
|---|---|
| Lle i feiciau | 2 |
| Socedi gwefru 3-phin yn unig | Oes |
| Annerch y Cyhoedd | Oes |
| Seddi | 187 |
| Seddi - seddi codi ychwanegol | 5 |
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |

| | |
|---|---|
| Toiled hygyrch | 1 |
| Toiled – ddim yn addas i gadeiriau | 2 |
| Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Wi-Fi | Nac oes |

# Cynllun y cerbyd - Class 170 tri cherbyd



Cerbyd

# Mark 4




## Fflyd bresennol

Mae'r Cerbydau Mark 4 yn cael eu tynnu gan locomotif.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 1989 - 1992 |
| Nifer yn y fflyd | 12 o gerbydau, mewn 3 thrên |


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 800 |

# Llwybrau

- Caerdydd - Caergybi
- Abertawe - Manceinion Piccadilly

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.




# Beth sydd y tu mewn

| | |
|---|---|
| Lle newid babanod | Oes |
| Lle i feiciau | 4 |
| Capasiti | 222 |
| Arlwyo - wrth y sedd (rhai gwasanaethau yn unig. Cysylltwch â'r gwasanaethau cwsmeriaid i gael rhagor o fanylon) | Oes |
| Socedi gwefru 3-phin yn unig | Oes |
| Annerch y Cyhoedd | Oes |
| Cerbyd bwyty | Oes |
| Seddi - dosbarth safonol | 182 |
| Seddi - dosbarth cyntaf | 40 |

| | |
|---|---|
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Toiled – ddim yn addas i gadeiriau olwyn | 3 |
| Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | |
| dosbarth safonol | 2 |
| dosbarth cyntaf | 2 |
| Wi-Fi | Oes |

# Cynllun y cerbyd



# Class 230




## Fflyd bresennol

Trenau dau-fodd tri cherbyd yw'r Class 230 sy'n defnyddio disel a batri.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 2019 - 2021 |
| Nifer yn y fflyd | 5 |


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 800 |

# Llwybrau

- Wrecsam - Bidston


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.



# Beth sydd y tu mewn

| | | |
|---|---|---|
| | Lle newid babanod | Oes |
| | Lle i feiciau | Nac oes |
| | Arlwyo - wrth y sedd | Nac oes |
| | Socedi gwefru<br>3-phin ac USB | Oes |
| | Annerch y Cyhoedd | Oes |
| | Seddi | 142 |
| | Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| | Toiled hygyrch | 1 |
| | Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| | Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| | Wi-Fi | Oes |

# Cynllun y cerbyd



Class

# 197




## Fflyd bresennol

Trenau disel dau gerbyd a thri cherbyd yw'r Class 197

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 2020 - presennol |
| Nifer yn y fflyd | 77 |
| • dau gerbyd | 51 |
| • tri cherbyd | 26 |


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | I'w gadarnhau |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 800 |

# Llwybrau

- Linell Arfordir Gogledd Cymru
- Llinell y Gororau
- Prif Linell De Cymru
- Gorllewin Cymru
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Rheilffordd y Cambrian

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.



# Beth sydd y tu mewn

Lle newid babanod — Oes

Lle i feiciau — I'w gadarnhau

Arlwyo - wrth y sedd (gwasanaethau dethol yn unig) — Oes

Socedi gwefru 3-phin ac USB — Oes

Annerch y Cyhoedd — Oes

Seddi - dosbarth safonol
- dau gerbyd — 116
- tri cherbyd — 188
- tri cherbyd gyda dosbarth cyntaf — 158

Seddi - dosbarth cyntaf
- tri cherbyd gyda dosbarth cyntaf — 16

Seddi - seddi codi ychwanegol
- I'w gadarnhau — 5
- tri cherbyd — 8

Seddi - blaenoriaeth — Oes

Toiled hygyrch — 1


Toiled – ddim yn addas i gadeiriau olwyn — 0
- I'w gadarnhau — 1
- tri cherbyd

Sgriniau Gwybodaeth Weledol — Oes


Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn — 2

Wi-Fi — Oes

# Cynllun y cerbyd - Class 197, dau gerbyd



# Cynllun y cerbyd - Class 197, tri cherbyd



# Cynllun y cerbyd - Class 197, tri cherbyd gyda dosbarth cyntaf



Class

# 231



## Fflyd bresennol

Trenau disel pedwar gerbyd yw'r Class 231.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 2020 - presennol |
| Nifer yn y fflyd | 11 |


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 800 |

# Llwybrau

- Maesteg - Glynebwy a Cheltenham.
- Rhymni - Penarth (yn ystod 2023)


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.



# Beth sydd y tu mewn

| | |
|---|---|
| Lle newid babanod | Oes |
| Lle i feiciau<br>Ddim yn bwrpasol, defnyddiwch le hyblyg | 9 |
| Socedi gwefru<br>3-phin ac USB | Oes |
| Annerch y Cyhoedd | Oes |
| Seddi | 170 |
| Seddi - seddi codi ychwanegol | 34 |
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Wi-Fi | Oes |

# Cynllun y cerbyd



# Class
# 756 Flirt



## Fflyd y dyfodol

Trenau tri-modd tri cherbyd a phedwar cerbyd yw'r Class 756 Flirt sy'n defnyddio disel, trydan a batri.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 2020 - presennol |
| Blwyddyn cyflwyno | 2023 |
| Nifer yn y fflyd | 24 |
| • tri cherbyd | 7 |
| • pedwar cerbyd | 17 |


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad | Oes |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Lled y drws (mm) | 800 |

# Llwybrau

- Rhymni - Penarth
- Bro Morgannwg


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.




# Beth sydd y tu mewn

| | |
|---|---|
| Lle newid babanod | Oes |
| Lle i feiciau<br>Ddim yn bwrpasol, defnyddiwch le hyblyg<br>• tri cherbyd<br>• pedwar cerbyd | <br><br><br>6<br>9 |
| Socedi gwefru<br>3-phin ac USB | Oes |
| Annerch y Cyhoedd | Oes |
| Seddi<br>• tri cherbyd<br>• pedwar cerbyd | <br>118<br>158 |
| Seddi - seddi codi ychwanegol<br>• tri cherbyd<br>• pedwar cerbyd | <br>24<br>32 |
| Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| Toiled hygyrch | 1 |
| Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Wi-Fi | Oes |

# Cynllun y cerbyd - Class 756 Flirt tri cherbyd



# Cynllun y cerbyd - Class 756 Flirt pedwar cerbyd



# Class **398** Citylink




## Fflyd y dyfodol

Trenau tram tri cherbyd yw'r Class 398 citylink sy'n defnyddio trydan a batri.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn adeiladu | 2020 - presennol |
| Blwyddyn cyflwyno | 2023 |
| Nifer yn y fflyd | 36 |

Sylwch nad oes toiledau ar y trên. Mae toiledau ar gael mewn gorsafoedd ar hyd y llwybr, gydag uchafswm o 14 munud rhwng arosfannau.


## Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Ramp mynediad: Mynediad gwastad; ond, mae angen defnyddio ramp mynediad mewn rhai gorsafoedd | |
| Botwm cymorth | Oes |
| Seddi â blaenoriaeth | Oes |
| Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| Toiled hygyrch | Nac oes |

# Llwybrau

- Treherbert / Merthyr Tudful / Aberdâr - Caerdydd a Phenarth


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, ond gallen nhw newid.



# Beth sydd y tu mewn

| | | |
|---|---|---|
| | Lle i feiciau<br>Ddim yn bwrpasol, defnyddiwch le hyblyg | 6 |
| | Socedi gwefru<br>3-phin ac USB | Oes |
| | Annerch y Cyhoedd | Oes |
| | Seddi | 96 |
| | Seddi - seddi codi ychwanegol | 31 |
| | Seddi - blaenoriaeth | Oes |
| | Sgriniau Gwybodaeth Weledol | Oes |
| | Lle i ddefnyddwyr cadair olwyn | 2 |
| | Wi-Fi | Oes |

# Cynllun y cerbyd



# Crynodeb

| Trên | Hygyrchedd | | | | | Arall | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Class 150 | Oes | Oes | Oes | 2 | 1 | Oes | 2 | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes | Oes |
| Class 153 | Oes | Oes | ** | 1/2 | 1* | ** | 2 | Nac oes | Oes* | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes* | Oes* |
| Class 158 | Oes | Oes | Oes | 2 | 1 | Oes | 2 | Oes | Oes | Oes | Nac oes | 1 | Oes | Oes |
| Class 170 | Oes | Oes | Oes | 2 | 1 | Oes | 2 | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | 1/2** | Oes | Nac oes |
| Mark 4 | Oes | Oes | Oes | 4 | 1 | Oes | 4 | Oes | Oes | Oes | Oes | 3 | Oes | Oes |
| Class 230 | Oes | Oes | Oes | 2 | 1 | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes | Oes |
| Class 197 | Oes | I'w gadarnhau | Oes | 2 | 1 | Oes | I'w gadarnhau | Oes | Oes | Oes | Nac oes | 0/1** | Oes | Oes |
| Class 231 | Oes | Oes | Oes | 2 | 1 | Oes | 9 | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes | Oes |
| Class 756 | Oes | Oes | Oes | 2 | 1 | Oes | 6/9** | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes | Oes |
| Class 398 | Oes | Oes | Oes | 2 | Nac oes | Nac oes | 6 | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes | Oes | Oes |

* Y fflyd sydd wedi'i hadnewyddu yn unig

** Gweler y dadansoddiad llawn am fanylion

Mae Trafnidiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono. Mae Trafnidiaeth Cymru yn hanfodol i gyflawni themâu allweddol Llywodraeth Cymru fel sydd wedi'u nodi yn Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol.

Er mwyn i Gymru a'i phobl ffynnu, mae angen i ni fod yn gysylltiedig â'n gilydd ac â'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom er mwyn creu cyfleoedd newydd. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wneud i'r cysylltiadau hyn ddigwydd – drwy gynllunio, comisiynu a rheoli rhwydweithiau trafnidiaeth effeithlon, a drwy fanteisio ar y sgiliau gorau posibl o bob rhan o ddiwydiant, llywodraeth a chymdeithas.

Rydyn ni'n creu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sydd hefyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor Cymru a'r cymunedau hynny sydd wedi cysylltu â ni.

Metro

Amseroedd teithio is, mwy o wasanaethau a chysylltiadau gwell - dyna rai o'r manteision a ddaw gyda Metro, sef y system drafnidiaeth newydd a chyffrous a fydd yn trawsnewid y ffordd rydyn ni i gyd yn teithio yng Nghymru a'r Gororau.

Bydd y Metro yn rhwydwaith trafnidiaeth o'r radd flaenaf, a bydd yn trawsnewid bywydau pobl yng Nghymru a'r Gororau, gan wella'r mynediad at swyddi, hamdden a chyfleoedd eraill.

Bydd y Metro yn trawsnewid gobeithion economaidd Cymru hefyd.

Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar Fetro De Cymru, ac rydyn ni'n datblygu dewisiadau i wella ac ehangu'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru a Bae Abertawe.